Distewch, cans mae presenoldeb Crist, y sanctaidd un gerllaw

Caneuon Ffydd: Rhif 600

Distewch, cans mae presenoldeb Crist, y sanctaidd Un, gerllaw;
dewch, plygwch ger ei fron mewn dwfn, barchedig fraw:
dibechod yw efe, lle saif mae'n sanctaidd le;
distewch, cans mae presenoldeb Crist, y sanctaidd Un, gerllaw.

Distewch, cans gogoniant Crist ei hun o'n cylch lewyrcha'n gry';
fe lysg â sanctaidd dân, mawr ei ysblander fry:
brawychus yw ei nerth, Breswylydd mawr y berth;
distewch, cans gogoniant Crist ei hun o'n cylch lewyrcha'n gry'.

Distewch, cans mae nerth yr Arglwydd Iôr yn symud yn ein plith;
daw i'n hiacháu yn awr, gweinydda'i ras fel gwlith:
fe glyw ein hegwan lef, drwy ffydd derbyniwch ef;
distewch, cans mae nerth yr Arglwydd Iôr yn symud yn ein plith.

DAVID J. EVANS
cyf. R. GLYN JONES

MYFYRDOD

Peth llesol iawn inni yw cael ymlonyddu yng nghanol ein prysurdeb a derbyn cyngor y Salmydd: 'Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw' (Salm 46:10). Yn ogystal â'n cymell i ymlonyddu yn Nuw, mae'r Salm yn rhybuddio'r rhai sydd yn milwrio yn erbyn achos yr Arglwydd mai peth ofer yw hynny ac yn ein cymell i heddychu hefyd, oherwydd mae'r Arglwydd yn abl i ddryllio'r bwa, torri'r waywffon a llosgi'r darian â thân (adn. 9).

Cawn ddistewi ym mhresenoldeb Crist trwy gyfrwng y cyfieithiad hynod yma gan R. Glyn Jones, Conwy, o emyn Saesneg David J. Evans. Sylwn yn arbennig ar sancteiddrwydd 'Crist, y sanctaidd Un' trwyddi – 'lle saif mae'n sanctaidd le', a chawn ein hatgoffa o ymateb Moses wyneb yn wyneb â phresenoldeb Duw pan welodd y berth yn llosgi (Ex. 3). Fe guddia'i wyneb oddi wrtho

mewn braw ac fe'i gorfodir i ddiosg ei sandalau oddi ar ei draed, a gallwn ddychmygu Moses yn sefyll yno o flaen y berth yn crynu gan ofn! Mae dod i bresenoldeb Duw ac ymagor iddo yn gofyn am wneud hynny 'mewn dwfn, barchedig fraw', oherwydd 'brawychus yw ei nerth, Breswylydd mawr y berth'. Mae adnabod Duw yn nwfn y galon yn golygu bod yn fodlon dod ato'n gyson a phrofi cyfnodau rheolaidd pryd y byddwn yn fodlon aros yn ddisgwylgar wrth ei draed. Yr ydym yn barod iawn yn aml i ddod â'n ceisiadau ger ei fron, ond yn anghofio treulio cymaint o amser yn gwrando ag yr ydym yn siarad.

Roedd Paul, er mewn cyfnod gwahanol i Moses, yn gwybod mai Duw i'w ofni ac Arglwydd i fod â pharchedig ofn ohono oedd ei Arglwydd ef. Cawn adroddiad yn Actau 9:31 fel y byddai'r Eglwys yn sgil ei bregethu, ac er gwaethaf pob erledigaeth a gwrthwynebiad, yn rhodio 'yn ofn yr Arglwydd ac yn niddanwch yr Ysbryd Glân' gan gynyddu wrth iddi wneud hynny. Yr Ysbryd Glân yw'r un sydd yn dod atom i'n cynorthwyo yn ein gwaith o ddwyn gogoniant i Grist. Dyma 'nerth yr Arglwydd Iôr [sy'n] symud yn ein plith'.

Mae'n llawer gwell, yn aml, cael gweithio yng nghwmni rhywun arall a chael annog a chynnal y naill a'r llall. Cofiwn nad ydym ni fyth yn sefyll ar ein pennau ein hunain pan fyddwn yn rhannu trugaredd a chariad a gras ein Harglwydd Iesu Grist, ond mae ef 'gerllaw', 'o'n cylch' ac yn 'symud yn ein plith'. Gallwn ninnau ymlonyddu yn ei gwmni a'i dderbyn trwy ffydd gan 'rodio . . . yn niddanwch yr Ysbryd Glân' (Actau 9:31).

GWEDDI

O Arglwydd, mae dy Ysbryd sanctaidd yn ddiddanwch i mi. Helpa fi yng nghanol galwadau eraill i ymlonyddu'n gyson yn dy gwmni di a bod yn llonydd yn ddigon hir i deimlo sancteiddrwydd dy bresenoldeb o'm cwmpas ac i glywed dy lais yn fy nerthu, fy iacháu ac yn f'arwain. Er gogoniant i Grist. Amen.